**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

3 Rhagfyr 2024

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1. Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu i dri awdurdod lleol yng Nghymru (Casnewydd, Powys a Gwynedd) ymgymryd â gweithgarwch peilota ynghylch cofrestru etholiadol heb gais. Rhaid cynnal y gweithgarwch peilota hwn rhwng y dyddiad y daw'r rheoliadau hyn i rym a 30 Medi 2025.

2. Mae'r rheoliadau'n cymhwyso addasiadau dros dro i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 mewn perthynas â chofrestru etholwyr, a fydd yn caniatáu i'r cynlluniau peilot hyn ddigwydd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

4. Gwneir y Rheoliadau o dan bwerau a roddir gan adrannau 5(1), (4), (6), (6)(1) a 21 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Deddf 2024).

5. Mae adran 5(4) o Ddeddf 2024 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymgymryd â gweithgarwch peilot am gyfnod penodedig, ar draws un neu nifer o ardaloedd etholiadol, at ddiben profi sut y mae'r newidiadau a wneir gan adrannau 3 a 4 o Ddeddf 2024 yn gweithio'n ymarferol.

6. Mae adran 5(4)(c) o Ddeddf 2024 yn pennu ymhellach y caniateir gwneud darpariaeth y mae ei heffaith yn cyfateb i effaith y diwygiadau a wneir gan adrannau 3 a 4 (neu'r is-ddeddfwriaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd yr adrannau hynny).

7. Mae adran 72(5) o Ddeddf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd â gweithgarwch peilot mewn perthynas â chofrestru etholwyr heb gais cyn y ceir cychwyn adrannau 3 a 4 o Ddeddf 2024 yn llawn.

8. Er mwyn gwerthfawrogi'n llawn y newidiadau a gyflwynir gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025 a'r pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n sail iddynt, dylid eu darllen ochr yn ochr ag adran 3 ac is-adrannau (1) i (6) ac (8) o adran 4 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Mae'r adrannau hyn yn addasu Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 sydd, o ganlyniad i Reoliad 4 a pharagraff 1 o'r Atodlen i'r rheoliadau hyn, yn cael effaith at ddibenion y cynllun peilot hwn fel pe bai'r adrannau hynny o Ddeddf 2024 mewn grym.

9. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 7(4) o Ddeddf 2024.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

10. Diben y ddeddfwriaeth hon yw caniatáu i weithgarwch peilota ddigwydd yn ardaloedd tri awdurdod lleol yng Nghymru – sef Casnewydd, Powys a Gwynedd. Bydd yr awdurdodau hyn yn peilota ffyrdd o gofrestru etholwyr heb gais fel y nodir yn adrannau 3 a 4 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Deddf 2024).

11. Gwnaeth Gweinidogion Cymru fwrw ymlaen â chynigion deddfwriaethol sylfaenol, drwy Ddeddf 2024, i wella'r broses o gofrestru i bleidleisio ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru. Y bwriad yw caniatáu i'r awdurdodau lleol ddefnyddio'r data lleol presennol i nodi a gwirhau etholwyr posibl, gan eu hychwanegu at gofrestr etholiadol llywodraeth leol wedi hynny.

12. Bydd etholwyr yn cael hysbysiad cofrestru a fydd yn rhoi gwybod iddynt bod ganddynt 60 diwrnod i hysbysu eu hawdurdod lleol os nad ydynt yn dymuno cael eu cofrestru'n awtomatig, os ydynt yn credu eu bod yn gymwys i gofrestru yn ddienw neu os ydynt yn credu nad oes ganddynt hawl i gofrestru.

13. Bydd yr hysbysiad cofrestru hwn hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol arall i'r etholwr, yn enwedig nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng hyn a chofrestru ar gyfer y gofrestr Seneddol y byddai rhaid i'r derbynnydd wneud cais amdano ei hun (os yw'n gymwys).

14. Gan y bydd yr ymagwedd hon at gofrestru yn eistedd ochr yn ochr â system Cofrestru Etholiadol Unigol bresennol y DU, gwnaeth Gweinidogion Cymru gynigion i beilota'r gweithgarwch cyn ei gyflwyno'n llawn er mwyn asesu effeithiolrwydd y cynllun yn ogystal â'r effaith ar bleidleiswyr.

15. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru yn dymuno deall effaith cofrestru heb gais ar grwpiau anodd eu cyrraedd, pleidleiswyr agored i niwed a'r rhai sydd â sail i gofrestru'n ddienw.

16. Nodwyd y darpariaethau hyn yn Neddf 2024 ac o ganlyniad, yn unol ag adran 75(5), *rhaid* peilota cofrestru heb gais cyn y gellir ystyried cyflwyno'r polisi yn llawn.

17. Bydd y rheoliadau hyn yn caniatáu i'r cynlluniau peilot ddigwydd o dan yr amodau a nodir yn adran 5 o Ddeddf 2024, sy'n cynnwys bod y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd yn ofynnol hefyd i'r cynllun peilot gael  gwerthusiad llawn gan y Comisiwn Etholiadol a gaiff ei gyflwyno i Weinidogion Cymru fel rhan o'u hystyriaeth ynghylch a ydynt am gyflwyno'r polisi ar draws Cymru ai peidio.

18. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach, fanwl, am effaith weithredol pob rheoliad yn y ddogfen ganllawiau sydd ynghlwm wrth y Memorandwm Esboniadol hwn.

## 5. Ymgynghori

*Ymgynghoriad ffurfiol*

19. Er nad ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y rheoliadau hyn, roedd y cynigion polisi a'r darpariaethau ynghylch cofrestru etholwyr heb gais yn destun ymgynghoriad ffurfiol ddwywaith.

20. Cynhaliwyd y cyntaf o'r ymgyngoriadau hyn yn 2017 drwy'r ymgynghoriad diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru lle y cyflwynwyd yr egwyddor o gofrestru heb gais a gofyn am farn y cyhoedd. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn ymatebodd 77% yn ffafriol i gynigion i ganiatáu i'r awdurdodau lleol ddefnyddio ystod ehangach o ddata sydd ar gael i helpu pobl i gael eu hychwanegu at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru.

21. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach drwy'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol lle y cyflwynwyd cwestiynau ynghylch rhoi'r polisi hwn ar waith a rhoi cyfle i'r cyhoedd godi unrhyw bryderon penodol.

22. Gan fod darpariaeth ar gyfer y polisi hwn yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, roedd y darpariaethau'n destun craffu deddfwriaethol sylfaenol y Senedd a oedd yn cynnwys gwaith craffu gan Bwyllgorau a chan y Senedd lawn.

*Ymgynghoriad anffurfiol*

23. Cyn i'r rheoliadau hyn gael eu datblygu, ymgysylltwyd yn gynnar â phartneriaid allweddol i lywio eu datblygiad. Mae cynnwys y rheoliadau hyn wedi cael ei rannu wedyn gyda'r awdurdodau lleol hynny sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch peilota a gafodd y cyfle, ynghyd â rhanddeiliaid etholiadol allweddol gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, i gyflwyno sylwadau ar y

cynigion a'u trafod cyn i fanylion terfynol y cynigion gael eu cwblhau. Mae hyn wedi caniatáu i'r darpariaethau gael eu hystyried yn fanwl gan sicrhau bod y rheoliadau'n addas i'r diben. Yn ogystal, ac yn unol â gofynion Deddf 2024, cynhelir ymgynghoriad â'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed cyn i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud a chyn i'r cynlluniau peilot ddechrau.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

24. Ystyriwyd dau opsiwn wrth ddatblygu’r polisi hwn:

    a. Busnes fel arfer;

    b. Cyflwyno rheoliadau i ganiatáu peilota cofrestru etholwyr heb gais ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

25. Nid oes modd cael opsiwn anneddfwriaethol yn yr achos hwn, gan fod yr holl drefniadau ar gyfer cofrestru etholwyr wedi’u nodi’n glir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

*Opsiwn 1: busnes fel arfer*

26. Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r arferion cofrestru etholiadol presennol ac ni fyddai'n rhoi effaith i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr heb gais fel y nodir yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Byddai'n caniatáu i'r darpariaethau hyn eistedd ar y Llyfr Statud i Gymru heb sylw, gan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf ymgymryd â gweithgarwch peilota yn y maes hwn cyn y gallant gychwyn y darpariaethau yn llawn.

*Opsiwn 2: peilota cofrestru etholwyr heb gais*

27. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol penodol yng Nghymru ymgymryd â chynlluniau peilot yn ymwneud â chofrestru etholwyr heb gais. Mae'r awdurdodau hyn wedi bod yn hunan-ddethol drwy broses agored a gynhaliwyd gan Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru.

28. Mae gwaith datblygu'r rhaglen beilot hon wedi digwydd dros gyfnod hir o amser ac mae wedi cael ei lywio gan yr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid etholiadol allweddol a'i gydgynhyrchu gyda hwy. .

29. Pwrpas y cynllun peilot hwn yw datblygu cyfres o gynlluniau peilot y gellir eu cyflawni, gyda dealltwriaeth glir o’r goblygiadau o ran costau ac adnoddau. Er y bydd y cynlluniau peilot a ddatblygir fel rhan o'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cywirdeb y gofrestr a phrofiad pleidleiswyr, bydd hefyd yn darparu dealltwriaeth o oblygiadau ariannol llawn cofrestru etholwyr heb gais.

30. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu costau’r cynlluniau peilot hyn a bydd yn cyhoeddi’r goblygiadau ariannol llawn cyn cyflwyno’r cynllun.

31. Os penderfynir bwrw ymlaen â chofrestru awtomatig, bydd dadansoddiad llawn o gostau yn cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol a fydd yn ofynnol cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno'n llawn. Bydd hyn yn darparu'r goblygiadau ariannol diweddaraf yn seiliedig ar y data a gesglir drwy'r cynllun peilot.

## 7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

*Costau*

32. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

*Manteision*

33. Byddai'r opsiwn hwn o fudd i bleidleiswyr oherwydd y byddai'r system yn llai cymhleth. Os caiff cofrestru heb geisiadau ei beilota, bydd angen o hyd i rai pleidleiswyr gofrestru i bleidleisio drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol. Bydd hyn yn gymwys i'r pleidleiswyr hynny sy'n gymwys i fod ar y gofrestr etholiadol seneddol yn ogystal â chofrestr etholiadol llywodraeth leol. Byddai hefyd yn osgoi costau rhedeg proses gyfochrog.

Opsiwn 2: Peilota cofrestru etholwyr heb gais

*Costau*

34. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau peilot yn yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan.

35. Bydd y brif gost i Lywodraeth Cymru yn deillio o newidiadau sy'n ofynnol i'r Systemau Rheoli Etholiadol (EMS) sy'n cefnogi'r broses o gofrestru etholwyr. Bydd yn ofynnol i ddau ddarparwr EMS wneud newidiadau i'w systemau, ac amcangyfrifir bod y costau'n £1,170,000 (gan gynnwys TAW) ar hyn o bryd.

36. Gan mai cynllun peilot yw hwn, nid oedd modd meintioli union gostau newidiadau i'r feddalwedd EMS; mae'n debygol y bydd costau annisgwyl wrth i'r newidiadau gael eu datblygu. Bydd y costau'n parhau i gael eu cyfrifo yn ystod y cyfnod peilota wrth i'r model terfynol o gofrestru heb geisiadau gael ei ddatblygu a chyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch unrhyw fodel terfynol ar gyfer cofrestru awtomatig cyn i'r drefn gael ei chyflwyno ledled Cymru. Bydd y rhain yn gostau untro gan y bydd Llywodraeth Cymru yn talu costau cychwynnol newidiadau i systemau EMS sy'n deillio o'r polisi hwn. Bydd dadansoddiad llawn o'r costau yn

cael ei ddarparu fel rhan o unrhyw reoliadau pellach sy’n ofynnol os caiff y polisi ei roi ar waith yn llawn ledled Cymru.

37. Er mwyn cefnogi gwaith y cynlluniau peilot ynghylch cyfathrebu'n effeithiol ag etholwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio'r Tîm Deall Ymddygiad i gefnogi'r awdurdodau peilot wrth iddynt ddatblygu a phrofi eu cyfathrebu. Mae hyn yn gost o £130,000.

38. Ynghyd â'r costau cyfathrebu, mae costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol o gysylltu â'r etholwr. Yn y lle cyntaf, bydd yr awdurdodau peilot yn cysylltu drwy lythyr, ac mae'r awdurdodau hynny wedi cyfrifo y bydd hyn yn rhyw £0.65c yr etholwr. Yn seiliedig ar nifer yr etholwyr sydd ar goll o gofrestr etholiadol llywodraeth leol (rhyw 400,000) a chan ragdybio lledaeniad gweddol gyfartal ar draws awdurdodau, bydd cost debygol cyfathrebu etholiadol ychwanegol yn rhyw £15,000.

39. Bydd costau eraill a ysgwyddir yn ystod y cynlluniau peilot yn deillio o'r baich ychwanegol a roddir ar yr awdurdodau peilot. Yn y lle cyntaf, bydd hyn yn gostau gweinyddu'r system newydd a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chloddio data. Ar gyfer y cyfnod peilot, amcangyfrifwyd nad yw'n fwy na £100,000 ar draws y tri awdurdod sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn seiliedig ar swyddog ychwanegol ar bwynt cyflog 21 o gytundeb cyflog cenedlaethol Llywodraeth Leol (2022-23) sy'n gweithio am 2 ddiwrnod yr wythnos ar gloddio data a gweinyddu'r broses cofrestru heb gais. Er hynny, mae'r awdurdodau sy'n cymryd rhan o'r farn y gallai rhywfaint o'r gwaith hwn gael ei ysgwyddo gan y timau gweinyddu etholiadol presennol ac felly y gallai'r gost wirioneddol fod yn is na hyn ar ddiwedd y cyfnod peilot.

40. Bydd un awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn ymgymryd â gwaith allgymorth fel rhan o'i gynnig peilot. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon, y mae'r awdurdod sy'n cymryd rhan wedi amcangyfrif y bydd yn costio £50,000. Mae'r gost hon yn seiliedig ar grant cymorth tebyg a ddarparwyd i awdurdodau lleol ledled Cymru yn 2020-21 y bwriedid iddi ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer cofrestru etholwyr newydd ar ôl i'r etholfraint etholiadol gael ei hymestyn.

*Manteision*

41. Byddai cofrestru etholwyr heb gais yn helpu i wella’r broses o gwblhau’r gofrestr etholwyr llywodraeth leol. Bydd treialu’r gweithgarwch hwn cyn ei gyflwyno’n llawn yn caniatáu i’r model mwyaf addas ac effeithiol gael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod etholwyr yn cael y cyfle gorau posibl i gael eu rhoi ar gofrestr etholiadol llywodraeth leol (a ddefnyddir hefyd ar gyfer etholiadau’r Senedd) heb orfod gwneud cais.

42. Er y byddai hyn o fudd i bob etholwr, disgwylir y bydd o fudd arbennig i rai sy’n nesáu at oedran pleidleisio (pobl ifanc 14 a 15 oed a fyddai’n gymwys i bleidleisio yn y ddwy flynedd nesaf), lle gallai ysgolion a gwasanaethau addysgol ddarparu data i’r swyddog cofrestru etholiadol.

43. Mae’r Comisiwn Etholiadol wedi croesawu’r uchelgais i foderneiddio cofrestru etholiadol ac mae’n cefnogi cynlluniau i archwilio sut gallai cofrestru awtomatig wella cyflawnder y gofrestr llywodraeth leol. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc a grwpiau eraill sydd wedi’u tangofrestru.

44. Ar gyfer dinasyddion tramor cymwys, byddai’n golygu na fyddai rhaid iddynt gofrestru i bleidleisio er mwyn cymryd rhan yn yr etholiadau y maent yn gymwys i bleidleisio ynddynt. Yn gyffredinol, bydd cofrestru heb gais yn helpu i symleiddio’r berthynas rhwng yr etholwr a gwasanaethau democrataidd.

## 8. Asesiad Cystadleuaeth

45. Nid yw asesiad cystadleuaeth yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn.

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

46. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol werthuso'r cynlluniau peilot a chyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2025 fan bellaf. Bydd y gwerthusiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd y cynllun peilot yn erbyn amcanion gwella cofrestriad pleidleiswyr, profiad pleidleiswyr a'r effaith ar y broses gweinyddu etholiadol.